

Rhif: WG25668



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru)

Llywodraeth Cymru

## Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

### Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad ar y Rheoliadau Atal Llygredd (Storio Olew) (Cymru) ac Ymateb y Llywodraeth

24 Mehefin – 24 Medi 2015

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2015

Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd CF10 3NQ  
Ffôn 02920 825509  
Gwefan: [www.wales.gov.uk](http://www.wales.gov.uk)

© Hawlfraint y goron 2015  
Y Goron sy'n berchen ar yr hawlfraint ar y trefniant argraffu a'r cynllun.

Gellir aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos adrannol) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod ei fod yn cael ei aildefnyddio'n fanwl gywir a heb fod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y goron a nodi teitl y cyhoeddiad.

Mae gwybodaeth am y cyhoeddiad hwn a rhagor o gopiâu ar gael gan:

Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ  
Ffôn: 02920 825509

E-bost: [water@wales.gsi.gov.uk](mailto:water@wales.gsi.gov.uk)

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru  
[http://www.wales.gov.uk/](http://www.wales.gov.uk)

Cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru

## Cynnwys

### Cyflwyniad:

Pwrpas yr ymgynghoriad.....	tudalen 4
Cyfnod a dosbarthiad yr ymgynghoriad.....	tudalen 4
Ymatebion.....	tudalen 4
Ymateb Llywodraeth Cymru .....	tudalen 4

Trosolwg.....	tudalen 6
---------------	-----------

Ymatebion i gwestiynau unigol.....	tudalen 7
------------------------------------	-----------

Casgliadau a'r camau nesaf.....	tudalen 17
---------------------------------	------------

### Atodiadau:

A: Rhestr ymgynghori.....	tudalen 18
B: Rhestr o'r holl ymatebwyr a'r sectorau .....	tudalen 19
C: Rhestr o gwestiynau'r ymgynghoriad.....	tudalen 20
D: Rheoliadau Drafft.....	tudalen 21

## Cyflwyniad

### Pwrpas yr ymgynghoriad

Ar 24 Mehefin 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Ymgynghoriad ar y Rheoliadau Atal Llygredd (Storio Olew) (Cymru). Mae testun llawn yr ymgynghoriad ar gael yn:

<http://gov.wales/consultations/environmentandcountryside/prevention-of-pollution-oil-storage-wales-regulations/?status=closed&lang=en>

Nod y rheoliadau arfaethedig yw lleihau ac atal llygredd dŵr o gyfleusterau storio olew annigonol a pheryglus sydd uwch ben y ddaear neu mewn adeiladau. Y gofynion allweddol fydd i'r cynhwysydd storio fod yn addas i bwrpas, gyda system gynnwys eilaidd. Bwnd yw hwn fel rheol<sup>1</sup> neu hambwrdd diferu, yn benodol ar gyfer dal unrhyw gynnwys sy'n dianc o'r cynhwysydd storio.

Hefyd mae'n nod i'r rheoliadau arfaethedig gymryd lle'r darpariaethau presennol ar gyfer storio tanwydd amaethyddol, sy'n rhan ar hyn o bryd o Reoliadau Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol 2010 (SSAFO). Bydd hyn yn darparu un gyfres o safonau ar gyfer storio olew yng Nghymru ac yn dileu eithriad a geir yn rheoliadau SSAFO ar gyfer cyfleusterau storio olew sy'n dyddio'n ôl i gyfnod cyn 1991. Hefyd, ni fydd yn ofynnol mwyach i ffermwyr roi gwybod i 'Cyfoeth Naturiol Cymru' eu bod yn gosod tanc storio olew yn ei le ac ni fydd y darpariaethau troseddu cysylltiedig yn berthnasol mwyach chwaith.

### Cyfnod a dosbarthiad yr ymgynghoriad

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad am 12 wythnos rhwng 24 Mehefin a 24 Medi 2015 ac fe'i dosbarthwyd i'r rhai ar y rhestr yn Atodiad A. Hefyd fe'i cyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, cynhaliwyd trafodaethau helaeth cyn yr ymgynghoriad, yn uniongyrchol gyda nifer o randdeiliaid allweddol ac fel rhan o ddatblygiad Strategaeth Ddŵr i Gymru Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2015.


### Ymatebion

Derbyniwyd 20 ymateb o amrywiaeth o sectorau, fel y nodir yn Ffigur 1 (isod). O blith y rhain, derbyniwyd 5 ymateb ar ôl y dyddiad cau, ond maent wedi cael eu cynnwys. Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr a'r wybodaeth sector gysylltiedig yn Atodiad B. Gofynnwyd cyfanswm o 7 cwestiwn, gyda darpariaeth ar gyfer sylwadau ychwanegol i gefnogi pob ymateb. Gwelir rhestr lawn o gwestiynau'r ymgynghoriad yn Atodiad C. Rhoddodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr atebion uniongyrchol i'r cwestiynau, gyda llawer ohonynt yn ategu'r rhain gyda sylwadau ychwanegol.

---

<sup>1</sup> Wal allanol neu dir caeedig yw bwnd.

**Ffigur 1**



### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn falch o'r ymateb cadarnhaol cyffredinol i'r ymgynghoriad hwn a bydd yn cyflwyno rheoliadau ar storio olew yn fuan. Rydym yn cydnabod safbwyntiau'r sector amaethyddol sy'n ceisio cael ei eithrio o ofynion y Rheoliadau arfaethedig. Fodd bynnag, mae rheoliadau tebyg ar gyfer storio olew tanwydd amaethyddol wedi bod yn eu lle am y 24 mlynedd diwethaf. O ystyried y risgiau cysylltiedig â'r cyfleusterau sy'n dyddio'n ôl i gyfnod cyn 1991 a weithredir o dan eithriad Rheoliadau Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol 2010, nid yw Gweinidogion Cymru yn credu ei bod yn briodol eithrio amaethyddiaeth o'r Rheoliadau hyn. Hefyd, ni fydd yn ofynnol mwyach i ffermwyr hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru o gyfleuster storio olew newydd a bydd un gyfres o safonau ar gyfer storio olew yng Nghymru.

Rydym wedi nodi'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad ac, o ganlyniad, mae nifer o fân ddiwygiadau wedi cael eu gwneud i'r Rheoliadau terfynol ac i'r canllawiau sy'n cyd-fynd a'r asesiad effaith. Nodir y newidiadau rydym wedi'u gwneud o ganlyniad i'r ymatebion yn yr adran "Ymatebion i gwestiynau unigol" briodol yn y ddogfen hon.

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r rhai a gefnogodd ddatblygiad yr ymgynghoriad hwn ac i'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad.

## Trosolwg

Ystyrir yr holl ymatebion yn y crynodeb hwn. Roedd cefnogaeth gref i'r cynigion gan y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd. Fodd bynnag, nid oedd ymatebion y sector amaethyddol yn cefnogi cynnwys eu gweithgareddau hwy, gan nodi diffyg tystiolaeth o blaid unrhyw newid, asesu annigonol ar gostau cysylltiedig yn yr asesiad effaith dros dro a digonolrwydd Rheoliadau Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol presennol 2010 (SSAFO) fel rhesymau.

Crynohir yr atebion i Gwestiynau 1-6 isod, a hefyd enghreifftiau o rai o'r sylwadau unigol a dderbyniwyd. Roedd fformat Cwestiwn 7 yn agored a chafwyd 15 ymateb iddo. Roedd rhai ymatebion yn cynnwys awgrymu diwygio'r rheoliadau drafft, y canllawiau a'r sylwadau ar yr asesiad effaith. Mae'r rhain i gyd wedi cael eu hystyried wrth lunio'r Rheoliadau, y canllawiau a'r asesiad effaith terfynol.

Daeth y rhan fwyaf o'r ymatebion o fyd busnes, gan gyrrff masnach yn bennaf. Ac eithrio'r sector amaethyddol, roedd pawb a ymatebodd yn cytuno y byddai'r rheoliadau arfaethedig yn cyfrannu at warchod yr amgylchedd dŵr yn well.

Roedd y rhai oedd â phrofiad o effaith llygredd olew, gan gynnwys iechyd cyhoeddus, gwasanaethau brys, rheoleiddwyr a chwmnïau cyflenwi dŵr, yn gefnogol iawn i'n cynigion. Nodwyd enghreifftiau ganddynt o effaith llygredd olew ar yr amgylchedd, ar iechyd a lles pobl ac ar systemau cyflenwi a thrin dŵr.

Roedd y sefydliadau a'r cwmnïau a oedd yn ymwneud â gosod offer tanwydd olew a systemau storio yn eu lle, a'r rhai a oedd yn cyflenwi olew, o blaid y rheoliadau arfaethedig. Mae ganddynt brofiad ymarferol o fethiant tanciau, o danciau wedi'u gosod yn eu lle'n wael ac o gwsmeriaid sy'n amharod i wella systemau peryglus. Maent yn credu bod rheoliadau'n angenrheidiol er mwyn rhoi sylw i'r perchnogion hynny nad ydynt wedi gwella safon eu cyfleusterau storio olew yn wirfoddol yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf.


## Ymatebion i gwestiynau unigol

### Cwestiwn 1

Er bod nifer yr achosion o lygredd olew yng Nghymru wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nid yw'r gostyngiad wedi bod mor fawr ag yn Lloegr a'r Alban, ble mae rheoliadau tebyg wedi cael eu cyflwyno. Byddai disgwyl rhywfaint o welliant yng Nghymru o ganlyniad i fentrau gwirfoddol ledled y DU, fel yr Ymgyrch Gofal Gydag Olew<sup>2</sup>, Rheoliadau SSAFO ac wrth i gwmnïau'r DU weithredu safon unffurf ar gyfer eu gweithrediadau i gyd. Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn am safbwyntiau am effeithiolrwydd y rheoliadau arfaethedig.

**Cwestiwn 1: A ydych chi o'r farn y bydd y Rheoliadau arfaethedig yn arwain at warchod yr amgylchedd dŵr yn well?**

Ffigur 2



Roedd mwyafrif y rhai a ymatebodd yn cytuno. Roedd y rhai a gyflwynodd sylwadau ychwanegol yn cefnogi'r angen am reoliadau, gan nodi achosion difrifol o lygredd olew a oedd wedi effeithio ar gyflenwadau dŵr cyhoeddus a systemau carthffosiaeth. Hefyd byddai'r rheoliadau o gymorth i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a lleihau effeithiau niweidiol eraill, gan gynnwys effeithiau ar iechyd y cyhoedd. Pwysleisiwyd pwysigrwydd cyfathrebu'r safonau newydd a'r angen am orfodi digonol gan rai ymatebwyr.

Teimlai cynrychiolwyr y sector amaethyddol nad oedd digon o dystiolaeth i gefnogi'r rheoliadau arfaethedig. Teimlent fod y gostyngiad mewn achosion o

<sup>2</sup> Gweler [www.oilcare.org.uk](http://www.oilcare.org.uk)

lygredd olew yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn dynodi bod y mentrau a'r mesurau rheoli presennol yn ddigonol.

Roedd yr ymatebion yn cynnwys y sylwadau canlynol:

*“Adroddwyd am nifer sylweddol o ddigwyddiadau'n ymwneud â storio olew i lechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'n bwysig gwerthfawrogi bod gan ddigwyddiadau oblygiadau y tu hwnt i'r amgylchedd ffisegol.”*

*“Rydym yn credu y bydd hyn yn cyfrannu at ostyngiad yn nifer yr achosion o lygredd dŵr sy'n gysylltiedig ag olew.”*

*“mae dull blaenorol Llywodraeth Cymru o weithredu wedi bod yn llwyddiannus ac yn gost effeithiol a dylid parhau â'r dull hwnnw”*

*“Olew gwresogi yn diferu ... o danc storio mewn gwesty wedi arwain at olew yn mynd i mewn i ddraen a oedd yn cysylltu â'r garthffos fudr. Aeth yr olew i mewn i'n gwaith trin dŵr gwastraff”*

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae nifer o'r ymatebion hyn yn darparu tystiolaeth sy'n cefnogi ein barn bod llygredd olew o systemau storio'n parhau i fod yn broblem fawr yng Nghymru, gydag effeithiau ehangach na'r effeithiau uniongyrchol ar yr amgylchedd dŵr. Gall yr effaith ar yr amgylchedd, ar bobl ac ar wasanaethau dŵr yn sgil achosion parhaus o dywallt olew fod yn sylweddol iawn ac yn ddrud. Er nad yw'r sector amaethyddol yn cytuno y byddai'r rheoliadau'n gwella'r dull o warchod yr amgylchedd dŵr, efallai bod hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod storio olew tanwydd amaethyddol wedi dod o dan reoliadau ers 1991.




## Cwestiwn 2

Roedd y Rheoliadau drafft yn cynnwys ystod gynhwysfawr o weithgareddau storio olew, a'r prif eithriadau oedd storio olew o dan y ddaear, storio olew domestig presennol, gweithgareddau dosbarthu olew a phuro olew.

**Cwestiwn 2: A oes unrhyw weithgareddau heblaw'r rhai a nodir yn rheoliad drafft 4 y dylid eu heithrio o'r Rheoliadau?**

**Ffigur 3**



Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cefnogi'r eithriadau arfaethedig. Roedd y rhai a gyflwynodd sylwadau'n cydnabod bod yr eithriadau arfaethedig yn debyg i'r rhai mewn mannau eraill yn y DU. Roedd rhai'n bryderus am y potensial am lygredd o danciau o dan y ddaear a theimlai sawl un y dylid rhoi sylw i danciau domestig presennol. Awgrymodd un ymateb y dylai'r sector amaethyddol gael ei eithrio gan fod safonau ar gyfer storio olew yn cael eu darparu eisoes drwy Reoliadau SSAFO (2010).

Roedd yr ymatebion yn cynnwys y sylwadau canlynol:

*“Mae ystadegau'r System Genedlaethol ar gyfer Cofnodi Digwyddiadau'n dynodi bod nifer fawr o achosion a thywallt olew yn digwydd o danciau storio olew domestig ac felly rydym yn teimlo y gellid sicrhau llawer llai o achosion o'r fath pe na bai unrhyw eithriadau.”*

*“Rydym yn awgrymu croesgyfeirio gyda'r eithriadau yn y Rheoliadau ar gyfer Caniatáu Gwastraff neu Drwyddedu Gwastraff, lle mae'r amodau storio'n amwys yn aml”*

*“dylid cynyddu'r trothwy 200 litr yn sylweddol er mwyn darparu ar gyfer mentrau bychain a chanolig, gan gynnwys ffermydd”*

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r gefnogaeth gyffredinol i'r eithriadau arfaethedig. Amlinellwyd ein rhesymau dros eithrio storio olew o dan y ddaear yn ein hymgyngoriad. Byddwn yn gweithio gyda 'Cyfoeth Naturiol Cymru' i edrych ymhellach ar y potensial ar gyfer mesurau rheoli wedi'u targedu ar gyfer y rhain.

Nid ydym yn cynnig diwygio'r eithriad ar gyfer storio olew domestig presennol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, byddwn yn gweithio gyda 'Cyfoeth Naturiol Cymru', y rhai sy'n cyflenwi ac yn gosod offer tanwydd olew a chyfleusterau storio, a chwmnïau cyflenwi olew er mwyn creu mwy o ymwybyddiaeth o risgiau'r rhain ac i adnabod arferion da drwy gyfrwng yr Ymgyrch Gofal Gydag Olew.


Bydd cynnwys olew tanwydd amaethyddol yn y Rheoliadau hyn yn dileu'r eithriad presennol o reolaeth o dan SSAFO ar gyfer gosodiadau sy'n dyddio'n ôl i gyfnod cyn 1991, ble mae offer sy'n mynd yn hen yn peri risg gynyddol o fethiant. Bydd yn symleiddio ac yn creu undod yn y gwaith o reoleiddio storio olew ar draws pob sector yng Nghymru. Felly nid ydym yn cynnig eithrio'r sector amaethyddol o'r Rheoliadau hyn.

### Cwestiwn 3

Cynigiodd y Rheoliadau drafft amserlen o 2 flynedd i'r cyfleusterau storio olew presennol mewn lleoliadau risg uwch (o fewn 10 metr i lwybr dŵr a 50 metr i dwll turio) a 4 blynedd i'r cyfleusterau sy'n weddill gydymffurfio â'r gofynion. Mae hyn yn unol â'r darpariaethau pontio sy'n cael eu gweithredu mewn mannau eraill yn y DU. Bydd yn ofynnol i'r holl gyfleusterau newydd a chyfnewid ar gyfer storio olew gydymffurfio o'r dyddiad y daw'r Rheoliadau i rym.

**Cwestiwn 3: A yw'r amserlen yn un resymol ar gyfer darparu ail siambr i danciau sy'n bodoli eisoes?**

Ffigur 4



Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno bod y darpariaethau pontio arfaethedig yn rhesymol. Nid oedd y sector amaethyddol yn cytuno. Dynododd un ymateb o'r fath bod cyfran uchel o ymatebwyr i arolwg diweddar ar fusnesau ffermio wedi dynodi bod ganddynt osodiadau'n dyddio'n ôl i gyfnod cyn 1991. O ganlyniad, byddai'r effaith bosib o gydymffurfio'n fwy nag a ragwelwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft. Awgrymodd un ymateb o'r sector busnes y dylid rhoi cyfnod o 10 mlynedd i danciau domestig presennol gydymffurfio.

Dywedodd un ymatebydd o'r sector busnes:

*“mae hyd at bedair blynedd yn gyfnod teg a rhesymol i weithredu'r safonau newydd heb greu baich ariannol.”*

Er yn dadlau yn erbyn cynnwys y sector amaethyddol, dywedodd un ymateb gan gynrychiolwyr y ffermwyr:

*“byddai 5 a 10 mlynedd yn fwy priodol, er mwyn rhoi digon o amser i fusnesau addasu i'r rheoliad ac i ystyried ffactorau economaidd”*

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**


Mae Llywodraeth Cymru yn falch o nodi'r cytundeb eang i'r darpariaethau pontio arfaethedig. O ystyried bod safonau tebyg wedi bod yn eu lle ar gyfer y sector amaethyddol am 24 o flynyddoedd, nid ydym yn credu bod y darpariaethau pontio arfaethedig yn afresymol ar gyfer unrhyw gyfleusterau sy'n weddill yn y sector nad ydynt yn cydymffurfio. Rydym yn bryderus bod y diwydiant yn dweud bod cyfran sylweddol o fusnesau amaethyddol yn dibynnu ar gyfleusterau sy'n dyddio'n ôl i gyfnod cyn 1991 sydd heb eu gwella. Mae systemau o'r fath yn fwy na 24 o flynyddoedd oed ac felly'n debygol o fod yn wynebu risg gynyddol o fethiant. Byddwn yn ystyried hyn wrth ddatblygu ein hasesiad effaith rheoleiddiol terfynol.

## Cwestiwn 4

Mae'r Rheoliadau drafft yn berthnasol i bob sector - diwydiannol, masnachol, sefydliadol, amaethyddol a domestig. Roedd Cwestiwn 4 yn gofyn am safbwyntiau am gwmpas arfaethedig y Rheoliadau.

**Cwestiwn 4: A oes gennych unrhyw sylwadau i'w gwneud ynglŷn â'r sectorau y bydd y Rheoliadau i'w cymhwyso iddynt?**

Ffigur 5



Roedd rhywfaint o ailadrodd yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn a'r ymatebion ar gyfer Cwestiwn 2, a oedd yn ymwneud â "gweithgareddau wedi'u heithrio". Fodd bynnag, o blith y rhai a gyflwynodd sylwadau, roedd nifer yn teimlo bod ein dull arfaethedig o weithredu'n rhesymol. Roedd sylwadau eraill yn gysylltiedig ag eithrio tanciau o dan y ddaear, cyfleusterau domestig presennol a chanolfannau dosbarthu olew. Ailadroddodd y rhai a oedd yn cynrychioli busnesau amaethyddol y farn bod y sector eisoes yn cael ei reoleiddio ac y dylai gael ei eithrio o'r Rheoliadau hyn.

Roedd yr ymatebion gan y sector busnes yn cynnwys y sylwadau canlynol:

*"mae pob sector perthnasol wedi'i gynnwys"*

*"mae olew tanwydd amaethyddol yn gollwng yn parhau i fod yn broblem i ni"*

*"mae'r sector amaethyddol yn cael ei reoleiddio eisoes o ran safonau storio olew o dan Reoliadau SSAFO (2010). .....rydyn ni o blaid mesurau gwirfoddol gan weithio mewn partneriaeth i wella canlyniadau amgylcheddol"*

*"Un peth sy'n peri pryder yw bod eithrio cyfleusterau storio presennol mewn eiddo domestig nes daw'n amser eu hadnewyddu'n rhoi rheswm arall dros oedi gyda'u newid, gan gynyddu'r risg o dywallt damweiniol"*

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi mai'r sector amaethyddol oedd yr unig sector busnes oedd eisiau ei eithrio o'r Rheoliadau arfaethedig ar y sail ei fod yn cael ei reoleiddio eisoes. Mae'r ymatebwyr eraill yn fodlon gyda chwmpas y Rheoliadau, ond dywedodd sawl un y dylid cael cynllun tymor hwy i sicrhau bod yr holl danciau storio olew domestig yn cael eu cynnwys.


Nid ydym yn credu y byddai cynnal gwahanol reoliadau ar gyfer gwahanol sectorau, yn ymwneud â'r un gweithgarwch, yn cyd-fynd â dull gweithredu ein Hadolygiad Hwyluso'r Drefn. Felly, nid ydym yn bwriadu eithrio'r sector amaethyddol o gwmpas y Rheoliadau hyn.

## Cwestiwn 5

Mae Llywodraeth Cymru yn credu ei bod yn briodol i'r rheoleiddiwr fod ag ystod eang o ddarpariaethau ar gael ar gyfer gorfodi'r Rheoliadau hyn. Yn ychwanegol at gosbau troseddol, rydym yn cynnig y dylai ystod o gosbau sifil fod ar gael. Nid ydym wedi cynnig y dylai'r rheoleiddiwr gael pwerau hysbysu ar gyfer y Rheoliadau hyn, oherwydd rydym yn credu y byddant yn gallu defnyddio'r pwerau sy'n bodoli eisoes os oes angen.

**Cwestiwn 5: A ydych chi o'r farn fod y darpariaethau gorfodi yn rhai rhesymol ac effeithiol?**

Ffigur 6



Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod y darpariaethau gorfodi'n rhesymol ac yn effeithiol. Mynegodd rhai ymatebwyr bryder am weithredu ac am yr adnoddau sydd ar gael i 'Cyfoeth Naturiol Cymru' i adnabod a blaenoriaethu cyfleusterau. Awgrymodd sawl sylw y dylai fod yn drosedd i gwmni cyflenwi gyflenwi olew i offer nad yw'n cydymffurfio. Awgrymodd un ymateb y dylai awdurdodau lleol gael pwerau gorfodi.

Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru bod eu pwerau hwy o dan Reoliadau Gwaith Gwrth Lygredd 1999 yn gallu bod gryn dipyn yn fwy cymhleth a chymryd llawer mwy o amser na'r broses bresennol a ddefnyddir o dan SSAFO ar gyfer gwella cyfleusterau storio ar ffermydd. Hefyd awgrymodd Cyfoeth Naturiol Cymru y gallai timau Rheoliadau Adeiladu a Chynllunio Awdurdodau Lleol helpu gyda lleihau baich gwaith posib y rheoleiddio drwy sicrhau, drwy gyfrwng eu dyletswyddau, bod cyfleusterau storio olew newydd neu gyfnewid yn cydymffurfio â'r Rheoliadau newydd. Awgrymodd y rheoleiddwyr amgylcheddol ym maes llywodraeth leol y dylent hwythau gael pwerau gorfodi.

Roedd yr ymatebion yn cynnwys y sylwadau canlynol:

*“Nid oes unrhyw fanylion am y strategaeth “oruchwylio”. Nid oes unrhyw arwydd o amledd archwiliadau CNC – dylid manylu ar hyn.”*

*“Sut bydd posib adnabod y cyfleusterau storio risg uwch a’u blaenoriaethu ar gyfer archwiliad o fewn yr amserlen o 2 flynedd?”*

*“Byddem yn cwestiynu’r angen am orfodi dedfryd o garchar a hefyd yn mynegi pryder, mewn achos o lygredd o ganlyniad i weithgarwch troseddol, ynghylch y ffaith y bydd y sawl sy’n cyflawni’r trosedd – os caiff ei ddwyn i gyfraith o gwbl – yn derbyn cosb lai na’r ffermwr – dioddefwr y drosedd – am fynd yn groes i’r rheoliadau”*

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn falch bod ein cynnig i roi i’r rheoleiddiwr ystod eang o bwerau gorfodi, gan gynnwys cosbau sifil, wedi cael ei dderbyn gan y rhai sy’n ymateb i’r cwestiwn. Bydd hyn yn galluogi’r rheoleiddiwr i weithredu’n ddoeth o ran gorfodi, gan leihau’r angen am fynd i gyfraith, dim ond yn yr achosion mwyaf eithafol.

Nid ydym yn credu y byddai’n briodol ar hyn o bryd i wneud cyflenwi i gyfleuster nad yw’n cydymffurfio yn drosedd. Fodd bynnag, gall sefyllfa o’r fath fod yn fwy ymarferol unwaith y bydd y cyfnod pontio wedi dod i ben.

Byddwn yn ymchwilio i sut gallai awdurdodau lleol helpu i weithredu’r rheoliadau hyn fel rhan o’u rôl amgylcheddol ac iechyd ehangach. Byddwn yn gweithio gyda ‘Cyfoeth Naturiol Cymru’ i gefnogi rhoi’r Rheoliadau hyn ar waith ac i weithio gyda’r diwydiant olew i sicrhau bod y rhai sy’n cyflenwi ac yn gosod offer tanwydd olew a chyfleusterau storio olew a chwmnïau dosbarthu’n rhoi gwybod i’w cwsmeriaid am y safonau ac yn cefnogi cydymffurfio. Bydd cael un safon ar gyfer yr holl offer yng Nghymru’n symleiddio materion ar gyfer gosodwyr a gyrwyr dosbarthu wrth iddynt drafod â’u cwsmeriaid, heb y dryswch posib o eithriadau sector neu ddyddiadau gosod.




## Cwestiwn 6

Roedd Cwestiwn 6 yn gofyn am sylwadau ar agweddau penodol ar y Rheoliadau arfaethedig ac yn gofyn am sylwadau manwl.

**Cwestiwn 6: A oes gennych chi unrhyw sylwadau ynglŷn ag agweddau penodol ar y Rheoliadau arfaethedig neu am y drefn yn gyffredinol?**

**Ffigur 7**



Darparodd ychydig dan hanner y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad sylwadau fel ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd yr ymatebion yn cynnwys cyfeirio at bwysigrwydd canllawiau da, ymgyrchoedd ymwybyddiaeth a'r posibilrwydd o adroddiad blynyddol ar archwilio tanciau fel gofyniad mewn polisïau yswiriant. Argymhellwyd cynnwys cyfeiriad at y Safon Brydeinig berthnasol ar gyfer tanciau olew gan sawl ymatebwr a derbyniwyd nifer o ymatebion am y lluniau enghreifftiol yn y canllawiau.

Cwestiynodd un ymateb y cyfyngiad 200 litr is gan fod drymiau olew yn 205 litr yn gyffredinol. Byddai cadw cyfyngiad o 200 litr yn golygu y byddai'n rhaid i lawer o fusnesau ddefnyddio hambyrddau diferu o bosib. Cynhwyswyd nifer o sylwadau manwl ar eiriad y Rheoliadau yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn. Awgrymodd un ymateb y dylid cynnwys mwy o fanylion yn y Rheoliadau, yn hytrach na Chanllawiau.

Roedd yr ymatebion yn cynnwys y sylwadau canlynol:

*“O dan 4.1 (a) - Mae Safon Brydeinig 5410 yn datgan yn awr ei bod yn ofynnol i'r holl danciau storio olew gael eu cynllunio a'u gweithgynhyrchu i fod ag oes ddisgwyliedig o 20 mlynedd o leiaf”*

*“Mae olew sy’n gollwng o danciau storio’n gallu effeithio ar iechyd y cyhoedd hefyd. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi derbyn adroddiadau am nifer sylweddol o achosion o dywallt olew (yn enwedig o eiddo domestig). Mae preswylwyr yn profi effeithiau iechyd neu efallai bod ganddynt bryderon ar ôl bod yn agored i olew ac anwedd. Mae’r effeithiau’n codi pan fydd olew yn symud o gwmpas, o dan adeiladau ac i mewn iddynt - gan arwain at bobl yn arogli ac yn anadlu anwedd niweidiol o bosib, neu’n gorfod gadael yr adeilad am gyfnod byr. Gall tir ac eiddo cyfagos gael eu heffeithio, gydag oblygiadau ehangach i iechyd y cyhoedd.”*

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym yn ddiolchgar o’r amser sydd wedi’i roi i ddarparu sylwadau manwl ar y Rheoliadau a’r Canllawiau. Os yw hynny’n briodol, rydym wedi gwneud diwygiadau i destun y Rheoliadau a’r Canllawiau.

Pennwyd y cyfyngiad is yn fwriadol ar gyfer cynwysyddion storio olew er mwyn cydymffurfio â’r gofynion cyfyngu, i sicrhau bod gweithrediadau masnachol ble mae olew yn cael ei storio mewn drymiau’n deall yn glir yr angen am i’r rhain gael rhyw fath o gyfyngiant. Mewn sawl achos, ble cedwir cynwysyddion mewn adeiladau, bodlonir y gofyniad cyfyngiant yn syml drwy osod ymyl wedi’i chodi ar riniog y drws. Mae hambyrddau diferu a phalets sy’n amgáu ar gael yn hwylus i sicrhau bod gwarchodaeth ddigonol ar y drymiau. Hefyd bwriad y cyfyngiad isel yw atal pob ymgais i osgoi rhoi’r rheoliadau ar waith drwy gynhyrchu cynwysyddion sydd ychydig o dan y cyfyngiad rheoleiddiol, fel sydd wedi digwydd o dan gyfundrefnau eraill.

## Cwestiwn 7

Mae'r cwestiwn hwn yn gyfle i'r ymatebwyr godi unrhyw faterion sydd heb eu cynnwys yn y cwestiynau strwythuredig uchod.

**Cwestiwn 7: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych sylwadau am unrhyw faterion eraill perthnasol i hyn, nad ydym ni wedi holi amdanynt yn benodol, rhwch eich sylwadau isod os gwelwch yn dda:**

Defnyddiodd y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad (13 allan o'r 18 ymateb) y cwestiwn hwn i roi sylw i faterion penodol sy'n eu pryderu hwy.

Cafwyd argymhellion ar gyfer gwella'r canllawiau:

- ar dywallt olew i gynnwys agweddau ar iechyd y cyhoedd,
- ar gyfleusterau olew gwastraff, gan gynnwys llosgwyr olew gwastraff
- i esbonio'r sefyllfa ar gyfer tanwydd a werthir o gyfleusterau cyfnewidiol
- diagramau wedi'u diweddarau
- i adlewyrchu'r diffiniad o fflachbwynt hylif fflamadwy sydd wedi newid
- ar brofi pwysedd pibellau o dan y ddaear
- i adlewyrchu'r cyswllt â rheoliadau adeiladu

Awgrymwyd hefyd y gellid gwneud gwelliannau technegol i'r Rheoliadau er mwyn rhoi sylw i golli tanwydd o weithredu symffonig ac i ymddiried yn y mecanwaith cyflenwi i atal "llenwi drwy dasgu", ac y dylid esbonio'r sefyllfa mewn perthynas ag ychwanegolion tanwydd, fel "Ad Blue" a biodanwydd. Dywedodd sawl ymateb bod geiriad y Rheoliadau mewn perthynas â chynwysyddion sydd â chapasiti sy'n llai na 200 litr yn amwys ac angen ei esbonio.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Byddwn yn diwygio'r ddogfen ganllawiau yng ngoleuni'r sylwadau a dderbyniwyd a byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid yn ystod y misoedd sydd i ddod i sicrhau ei bod yn addas i bwrpas ac yn cael ei dosbarthu'n eang. Hefyd byddwn yn diwygio'r Rheoliadau lle bo hynny'n briodol, i adlewyrchu'r sylwadau manwl a dderbyniwyd mewn perthynas ag offer trydan mewn byndiau, y defnydd o "llenwi drwy dasgu" a falfiau gwrth seiffonig ar bibellau sugno twll bach, ac i sicrhau eglurder ynghylch cynwysyddion bach, biodanwydd ac ychwanegolion.

## Casgliad a'r camau nesaf

Derbyniodd yr ymgynghoriad nifer cymharol fach o ymatebion, gyda'r mwyafrif o'r sector busnes, gan gyrrff masnach yn bennaf. Roedd y rhan fwyaf yn gefnogol i amcanion yr ymgynghoriad ac yn credu y byddai'r Rheoliadau arfaethedig nid yn unig yn effeithiol er mwyn gwella'r dull o warchod yr amgylchedd dŵr, ond yn arwain hefyd at fanteision iechyd a lles.

Adlewyrchodd cynrychiolwyr y ffermwyr wrthwynebiad cryf i gynnwys storio tanwydd amaethyddol yn y Rheoliadau hyn yn hytrach na SSAFO. Fodd bynnag, mae'r sector hwn yn ymwybodol o'r safonau priodol ar gyfer storio olew ers 24 o flynyddoedd. Rydym yn pryderu bod llawer o ffermwyr yn dal i ddibynnu ar eithriad yn SSAFO i osgoi sicrhau bod eu cyfleusterau'n bodloni'r safonau sy'n berthnasol i bob sector arall. Ceir cyswllt cryf rhwng oedran tanc storio olew a'r risg gynyddol o fethiant o ganlyniad i dywallt y cynnwys, gan bwysleisio gwerth cynhwysydd eilaidd ar gyfer cyfleusterau o'r fath. Mae'r safonau presennol ar gyfer tanciau storio olew yn darparu ar gyfer oes gynllunio o ugain mlynedd. Rydym yn credu bod caniatáu cyfnod pellach o 2 i 4 blynedd i sicrhau cydymffurfiaeth, yn unol â busnesau eraill, yn rhesymol.

Gwnaed nifer fawr o sylwadau gwerthfawr yn yr ymgynghoriad ysgrifenedig ac yn y trafodaethau a'r ohebiaeth gyda rhanddeiliaid cyn yr ymgynghoriad. Mae diwygiadau wedi cael eu gwneud o ganlyniad i'r Rheoliadau, y canllawiau a'r asesiad effaith rheoleiddiol drafft. Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r rhai a wnaeth ymdrech i ddarparu gwybodaeth gefndir neu i ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae copi o'r Rheoliadau drafft adolygedig wedi'i atodi yn Atodiad D. Rydym yn bwriadu bwrw ymlaen â'r rhain yn ystod y misoedd sydd i ddod, gyda dyddiad gweithredu posib yng ngwanwyn 2016. Caiff y canllawiau a'r asesiad effaith rheoleiddiol eu hadolygu ac wedyn eu cyhoeddi pan fydd y Rheoliadau wedi'u gosod.

Ar ôl llunio'r Rheoliadau yn derfynol, a'u cymeradwyo, byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, cwmnïau dŵr, cynrychiolwyr busnes a'r diwydiant olew i roi cyhoeddusrwydd i'r safonau arfaethedig.

## **Atodiad A**

### **Rhestr o Ymgynghoreion**

Amec.  
Associated British Ports  
Atkins Global  
Cymdeithas Parciau Cenedlaethol Cymru  
Ymddiriedolaeth Natur Brycheiniog  
Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog  
British Water  
Business Stream  
Busnes Cymru  
Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd  
Sefydliad Siartredig ar gyfer Tai  
Sefydliad Siartredig ar gyfer Iechyd Amgylcheddol  
Cyngor Ar Bopeth  
Clairhill  
Yr Awdurdod Glo  
Coedcymru  
Tai Cymunedol Cymru  
Cyngor ar dir cymunedol  
Confederasiwn Diwydiant Prydain  
Grŵp y Co-operative  
Cymdeithas Busnesau Gwledig  
Dŵr Cymru Welsh Water  
Ymddiriedolaeth Cwm Elan  
Ymddiriedolaeth Arbed Ynni  
Undeb Amaethwyr Cymru  
Ffederasiwn y Cyflenwyr Petrol  
Ffederasiwn Busnesau Bach  
Freightliner  
Cyfeillion y Ddaear  
Gofal Cymru  
Ffederasiwn yr Adeiladwyr Tai  
Sefydliad y Peirianwyr Sifil  
Cadwch Gymru'n Daclus  
Landscape Institute  
Grŵp Gweithredu Cronfa Ddŵr Llanisien  
Marine Conservation Society  
Mineral Products Association  
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yng Nghymru  
Y Gymdeithas Garthffosiaeth Genedlaethol  
Y Gymdeithas Genedlaethol o Dyfwyr Hamdden a Rhandiroedd  
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol  
The Oil Specialists  
OFTEC  
Un Llais Cymru  
Arfordir Penfro  
Iechyd Cyhoeddus Cymru  
Y Sefydliad Cynllunio Tref Brenhinol

Y Gymdeithas Frenhinol ar gyfer Gwarchod Adar  
Ymddiriedolaeth Afon Hafren  
Severn-Trent Water  
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri  
United Utilities  
Partneriaeth Iechyd Dŵr Cymru  
Y Gwasanaeth Cyngori ar Reoliadau Dŵr  
Water UK  
Yr Ymddiriedolaeth Adar Gwyllt a Thiroedd Gwlyb  
Ymddiriedolaethau Natur Cymru  
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru  
Sefydliad y Merched Cymru  
Ymddiriedolaeth y Coetiroedd  
Wrap  
Sefydliad Afonydd Gwy ac Wysg

## Atodiad B

### Rhestr o ymatebwyr

Roedd yr ymatebwyr yn cynnwys 1 unigolyn preifat a'r busnesau a'r sefydliadau canlynol:

Is Grŵp EPR Cymru Gyfan	Llywodraeth Leol
BAM Nuttall Ltd	Busnes
Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd	Trydydd Sector
Tai Cymunedol Cymru	Trydydd Sector
Dee Valley Water	Busnes
Dŵr Cymru Welsh Water	Busnes
Undeb Amaethwyr Cymru	Busnes
Ffederasiwn y Cyflenwyr Petrol	Busnes
Cymdeithas yr Arbenigwyr Tanwydd	Busnes
Ffederasiwn y Peirianwyr Gwresogi a Busnesau	
Masnach Cysylltiedig	Busnes
Sefydliad y Peirianwyr Sifil	Busnes
Lorax Systems	Busnes
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a De Cymru	Llywodraeth Leol
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yng Nghymru	Busnes
Cyfoeth Naturiol Cymru	Llywodraeth
Oil Firing Technical Association Ltd (OFTEC)	Busnes
OHES	Busnes
Oil Recycling Association	Busnes
Iechyd Cyhoeddus Cymru	Llywodraeth

## **Atodiad C**

### **Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**Cwestiwn 1:** A ydych chi o'r farn y bydd y Rheoliadau arfaethedig yn arwain at warchod yr amgylchedd dŵr yn well?

Ydw/Nac ydw

Os nad ydych, pam felly?

**Cwestiwn 2:** A oes unrhyw weithgareddau heblaw'r rhai a nodir yn rheoliad drafft 4 y dylid eu heithrio o'r Rheoliadau?

Oes/Nac oes

Os oes, rhowch fanylion os gwelwch yn dda.

**Cwestiwn 3:** A yw'r amserlen yn un resymol ar gyfer darparu ail siambr i danciau sy'n bodoli eisoes?

Ydyw/Nac ydyw

Os nad ydyw, pam felly?

**Cwestiwn 4:** A oes gennych unrhyw sylwadau i'w gwneud ynglŷn â'r sectorau y bydd y Rheoliadau i'w cymhwyso iddynt?

Oes/Nac oes

Os oes, rhowch fanylion os gwelwch yn dda.

**Cwestiwn 5:** A ydych chi o'r farn fod y darpariaethau gorfodi yn rhai rhesymol ac effeithiol?

Ydw/Nac ydw

Os nad ydych, pam felly?

**Cwestiwn 6:** A oes gennych chi unrhyw sylwadau ynglŷn ag agweddau penodol ar y Rheoliadau arfaethedig neu am y drefn yn gyffredinol?

Oes/Nac oes

Os oes, rhowch fanylion os gwelwch yn dda.

**Cwestiwn 7:** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych sylwadau am unrhyw faterion eraill perthnasol i hyn, nad ydym ni wedi holi amdanynt yn benodol, rhowch eich sylwadau isod os gwelwch yn dda:



**2015 No. (W. )**

**WATER RESOURCES, WALES**

**The Control of Pollution (Oil Storage) (Wales) Regulations 2015**

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations, made under sections 92 and 219(2) of the Water Resources Act 1991 and under section 62 of the Regulatory Enforcement and Sanctions Act 2008 require a person having custody or control of oil to carry out certain works and take certain precautions for preventing pollution of any waters which are controlled waters for the purposes of Part III of the Water Resources Act 1991. The Regulations apply in relation to Wales.

The Regulations also replace provision currently made in relation to agricultural fuel oil by the Water Resources (Control of Pollution) (Silage, Slurry and Agricultural Fuel Oil) (Wales) Regulations 2010.

Regulation 2(1) defines terms used in the Regulations.

Regulation 3 makes provision about the application of the Regulations. Regulation 4 sets out general storage requirements. Regulation 5 imposes detailed requirements as to the construction and installation of fixed tanks and ancillary equipment. Regulation 6 imposes detailed requirements in relation to mobile bowsers

Regulation 7 contains transitional provisions.

Regulation 8 provides that a breach of regulations 3 to 6 is a criminal offence.

Regulation 9 permits Natural Resources Wales, as regulator, to impose civil sanctions in relation to offences committed under regulation 7.

Regulation 10 provides that Natural Resources Wales may enforce these Regulations.

Regulation 11 amends the Water Resources (Control of Pollution) (Silage, Slurry and Agriculture Fuel Oil) (Wales) Regulations 2010 by removing requirements as to agricultural fuel oil from those Regulations.

The regulations were notified in draft to the European Commission in accordance with the Technical Standards Directive 98/34/EC, as amended by Directive 98/48/EC).

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

**2015 No. (W. )**

**WATER RESOURCES, WALES**

**The Control of Pollution (Oil Storage) (Wales) Regulations 2015**

*Made* \*\*\*

*Laid* \*\*\*

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 92 and 219(2) of the Water Resources Act 1991<sup>(3)</sup> and by section 62 of the Regulatory Enforcement and Sanctions Act 2008<sup>(4)</sup> (“the 2008 Act”).

The Welsh Ministers have consulted the Secretary of State in accordance with section 59 of the 2008 Act and have carried out consultation in accordance with section 60 of that Act.

The Welsh Ministers are satisfied, in accordance with section 66 of the 2008 Act, that the Natural Resources Body for Wales (which is the regulator for the purpose of this Order) will act in accordance with the principles referred to in section 5(2) of that Act in exercising a power conferred by this Order.

A draft of this Order has been laid before, and approved by a resolution of, the National Assembly for Wales in accordance with section 62 of the 2008 Act.

**Title, application and commencement**

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Control of Pollution (Oil Storage) (Wales) Regulations 2015.

(2) These Regulations apply in relation to Wales and come into force on [date to be inserted].

**Interpretation**

**2.**In these Regulations—

---

<sup>(3)</sup> 1991 c.57. Section 92 was amended by the Environment Act 1995 (c.25: see section 120 of, and paragraphs 128 and 144 of Schedule 22 to the Act); the Environmental Permitting (England and Wales) Regulations 2010 (S.I. 2010/675: see regulation 107 and paragraphs 8(1) and 8(5) of Schedule 26) and by the Natural Resources Body for Wales (Functions) Order 2013 (S.I. 2013/755: see paragraph 274 of Schedule 1. There are amendments to Section 219(2) which are not relevant to these Regulations.

<sup>(4)</sup> 2008 c. 13.

“container” means a single or double skinned fixed tank, a drum, a mobile bowser or (even if not connected to a fixed pipe or fixed pipework) an intermediate bulk container;

“drum” means an oil drum or similar container used for storing oil;

“environmental permit” has the same meaning as it does in the Environmental Permitting (England and Wales) Regulations 2010.<sup>(5)</sup>

“fixed tank” includes an intermediate bulk container which is connected to a fixed pipe or pipework ;

“oil” means any kind of oil except uncut bitumen

“premises” includes land but does not include vehicles or vessels.

“secondary containment system” means a drip tray, an area surrounded by a bund or catchpit, or any other system for preventing oil which is no longer in its container from escaping from the place where it is stored.

“small bore suction pipe” means a suction pipe with a pipe diameter of less than 8 millimetres;

### **Storage of oil**

**3.—**(1) Subject to paragraph (2), these Regulations apply in relation to the storage of oil on any premises.

(2) These Regulations do not apply in relation to the storage of oil—

- (a) in any container with a storage capacity of 200 litres or less;
- (b) that is subject to the terms of an environmental permit condition;
- (c) in any container which is situated wholly underground (unless that container is situated within a building);
- (d) on premises used-
  - (i) wholly or mainly as a private dwelling if the container in which the oil is stored was in use for storing oil before these Regulations came into force;
  - (ii) as an oil distribution depot; or
  - (iii) for refining oil.

### **Storage containers: general requirements**

**4.—**(1) This regulation is subject to regulation 7 (which makes transitional provision).

(2) Oil must be stored in a container which—

- (a) is of sufficient strength and structural integrity to ensure that it is unlikely to burst or leak in ordinary use; and
- (b) has been installed without adversely affecting that strength and integrity.

(3) The container referred to in paragraph (2) must be situated within a secondary containment system in relation to which the following requirements must be satisfied

- (a) except in a case to which paragraph (7) applies, the system must have a capacity of not less than 110% of the container’s storage capacity or, if there is more than one container within the system, of not less than 110% of the largest container’s storage capacity or 25% of their aggregate storage capacity, whichever is the greater;
- (b) the system must be positioned, or other steps must be taken, so as to minimise any risk of damage by impact so far as is reasonably practicable;
- (c) the base and walls of the system must be impermeable to water and oil;
- (d) the base and walls of the system must not be penetrated by any valve, pipe or other opening which is used for draining the system;

---

<sup>(5)</sup> S.I. 2010/675.

- (e) if any fill pipe, or draw off pipe, penetrates the base or any of the walls of the system, the junctions of the pipe with the base or the walls must be sealed in such a way as to prevent oil escaping from the system.
- (4) Any valve, filter, sight gauge, vent pipe or other equipment ancillary to the container (other than a fill pipe or a draw off pipe) must be situated within the secondary containment system.
- (5) If the connection point to a fill pipe is not within the secondary containment system, a drip tray must be used to catch any oil spilled when the container is being filled with oil.
- (6) Where any drum is used for the storage of oil in conjunction with a drip tray as a secondary containment system, it is sufficient if the tray has a capacity of not less than—
  - (a) 25% of the drum's storage capacity; or
  - (b) if there is more than one drum used at the same time with the tray, 25% of the aggregate storage capacity of the drums.

### **Fixed tanks**

5.—(1) This regulation is subject to regulation 7 (which makes transitional provision).

(2) Where a fixed tank is used for storing oil the requirements in paragraphs (3) to (10) must be satisfied.

(3) Any sight gauge must be properly supported and fitted with a valve which closes automatically when not in use.

(4) Any fill pipe, draw off pipe or overflow pipe must be positioned, or other steps must be taken, so as to minimise any risk of damage by impact so far as is reasonably practicable and—

- (a) if above ground, must be properly supported;
  - (b) if underground—
    - (i) may not have mechanical joints, unless they are located at a place where they are accessible for inspection by removing a hatch or cover;
    - (ii) must be adequately protected from physical damage;
    - (iii) must have adequate facilities for detecting any leaks;
    - (iv) if fitted with a leakage detection device which is used continuously to monitor for leaks, the detection device must be maintained in working order and tested at least once every five years, or more frequently if appropriate to the device in question, to ensure that it works properly; and
    - (v) if not fitted with a leakage detection device—
      - (aa) any new pipe first used after these Regulations come into force must be tested for leaks before it is first used and further tests for leaks must be performed, in the case of pipes which have mechanical joints, at least once every 5 years and, in other cases, at least once every 10 years;
      - (bb) any pipe already in use on the date upon which these Regulations come into force that has not been tested for leaks in the previous 5 years must be tested within 1 year of the end of the relevant transitional period and thereafter, in the case of pipes which have mechanical joints, at least once every 5 years and, in other cases, at least once every 10 years. or
      - (cc) any pipe already in use on the date these Regulations come into force that has been previously tested for leaks less than 5 years before the end of the relevant transitional period that has mechanical joints must be tested at least once every 5 years and, in other cases, at least once every 10 years.
  - (c) if made of materials which are liable to corrosion, must be adequately protected against corrosion.
- (5) Any small bore suction pipe must be fitted with an anti siphon valve.

(6) The tank must be fitted with an automatic overfill prevention device if the filling operation is controlled from a place where it is not reasonably practicable to observe the tank and any vent pipe.

(7) Where a screw fitting or other fixed coupling is fitted, it must be maintained in good condition and must be used whenever the tank is being filled with oil.

(8) Where oil from the tank is delivered through a flexible pipe which is permanently attached to the container or a delivery pump —

- (a) the pipe must be fitted with a tap or valve at the delivery end which closes automatically when not in use;
- (b) the tap or valve must not be capable of being fixed in the open position unless the pipe is fitted with an automatic shut-off device;
- (c) the pipe must be enclosed in a secure cabinet which is locked shut when not in use and is equipped with a drip tray, or the pipe must—
  - (i) have a lockable valve where it leaves the container which is locked shut when not in use; and
  - (ii) be kept within the secondary containment system when not in use;

(9) Any pump must be —

- (a) fitted with a non return valve in its feed line;
- (b) positioned, or made subject to other measures, so as to minimise any risk of damage so far as is reasonably possible; and
- (c) protected from unauthorised use.

(10) Any permanent vent pipe, tap or valve through which oil can be discharged from the tank to the open must satisfy the following requirements—

- (a) it must be situated within the secondary containment system;
- (b) it must be arranged so that any oil discharged from the tank other to its intended destination is contained within the system; and
- (c) in the case of a tap or valve, it must be fitted with a lock and locked shut when not in use.

### **Mobile bowzers**

**6.**—(1) This regulation is subject to regulation 7 (which makes transitional provision).

(2) If a mobile bowser is used for storing oil, the requirements in paragraphs (3) to (5) must be satisfied.

(3) Any tap or valve permanently fixed to the bowser through which oil can be discharged to the open must be fitted with a lock and locked shut when not in use.

(4) Where oil is delivered through a flexible pipe which is permanently attached to the mobile bowser—

- (a) the pipe must be fitted with a manually operated pump or a valve at the delivery end which must—
  - (i) automatically close when not in use;
  - (ii) be provided with a lock; and
  - (iii) be locked shut when not in use;
- (b) the pipe must be fitted with a lockable valve at the end where it leaves the mobile bowser and the valve must be locked shut when not in use.

(5) Any sight gauge must be secured to the mobile bowser and be fitted with a valve or tap which must be locked shut when not in use.

## **Transitional provisions**

7.—(1) Where oil is stored in a container which is in use for that purpose when these Regulations came into force, regulations 4 to 6 do not apply until the end of the relevant transitional period.

(2) Where the container is situated less than 10 metres away from any inland freshwaters or coastal waters<sup>(6)</sup> the relevant transitional period is 2 years beginning with the date on which these Regulations come into force.

(3) Where the container is situated less than 50 metres away from a well or borehole the relevant transitional period is 2 years beginning with the date on which these Regulations come into force.

(4) In any case to which paragraph (2) or (3) does not apply, the relevant transitional period is 4 years beginning with the date on which these Regulations come into force.

## **Offences**

8.—(1) It is an offence for a person who has custody or control of any oil to breach any provision of regulations 4 to 6.

(2) A person guilty of an offence under paragraph (1) is liable—

- (a) on summary conviction to a fine or imprisonment for a term not exceeding 12 months, or to both; or
- (b) on conviction on indictment to a fine or imprisonment for a term not exceeding 5 years, or to both.

(3) In relation to an offence committed before the commencement of section 154(1) of the Criminal Justice Act 2003 (c. 44), paragraph (2)(a) has effect as if for “12 months” there were substituted “6 months”.

## **Civil Sanctions**

9.—(1) The Natural Resources Body for Wales may—

- (a) impose a fixed monetary penalty;
- (b) impose a variable monetary penalty;
- (c) impose a restoration notice;
- (d) impose a stop notice;
- (e) accept an enforcement undertaking;

in relation to an offence under regulation 8 as if it were an offence under a provision specified in relation to that sanction in Schedule 5 to the Environmental Civil Sanctions (Wales) Order 2010<sup>(7)</sup>.

(2) The terms used in this regulation have the same meaning as in that Order.

(3) The provisions of that Order in relation to those sanctions apply as if they were provisions of these Regulations.

## **Enforcement**

10. These Regulations may be enforced by the Natural Resources Body for Wales.

---

<sup>(7)</sup> S.I. 2010/1821 (W.178).

**Amendment of the Water Resources (Control of Pollution) (Silage, Slurry and Agriculture Fuel Oil) (Wales) Regulations 2010**

**11.**—(1) The Water Resource (Control of Pollution) (Silage, Slurry and Agriculture Fuel Oil) (Water) Regulations 2010<sup>(8)</sup> are amended as follows—

- (2) in regulation 2 omit the definition of “fuel oil”;
- (3) omit regulation 5 and Schedule 3;
- (4) in regulation 6(1)—
  - (a) after “silo”, for “,” substitute “ or”;
  - (b) omit “or fuel storage tank”;
- (5) in sub-paragraph (a) of regulation 6(1)—
  - (a) after “silage”, for “,” substitute “or, as the case may be,”; and
  - (b) after “slurry” omit “or, as the case may be, storing fuel oil”;
- (6) in regulation 6(2)—
  - (a) after “silo”, for “,” substitute “ or”;
  - (b) omit “ or fuel storage tank”;
- (7) in regulation 7(1)—
  - (a) after “silage”, for “,” substitute “ or”;
  - (b) after the first occurrence of “slurry” omit “ or fuel oil”;
  - (c) after “silo”, for “,” substitute “ or”;
  - (d) after “system” omit “ or fuel storage tank”;
- (8) in regulation 9—
  - (a) after “silage”, for “,” substitute “ or”;
  - (b) after “slurry” omit “ or fuel oil”;
  - (c) after “silo”, for “,” substitute “ or”;
  - (d) after “slurry storage system” omit “ or fuel storage area”;
- (9) in regulation 10(1) omit “, 5(1)”.

*Name*

Minister for Natural Resources, one of the Welsh Ministers

*Date*

---

<sup>(8)</sup> S.I. 2010/1493 (W.136).